

Astudiaeth achos



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Pontio'r Rhaniad Digidol:

Effaith Gadarnhaol y DTLSN ar gymunedau Cymru

Trosolwg

Mae'r Rhwydwaith Cymorth Dysgu Technoleg Ddigidol (DTLSN), sydd dan arweiniad Prifysgol Metropolitan Caerdydd mewn partneriaeth â Technocamps ym Mhrifysgol Abertawe, cafodd ei lansio drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Nod y fenter yw arfogi ysgolion cynradd ac uwchradd, athrawon, rhieni, grwpiau cymunedol a busnesau yng Nghymru â sgiliau digidol hanfodol sydd eu hangen yn y dirwedd dechnolegol sydd ohoni.

Hyd yn hyn, mae'r DTLSN wedi cefnogi cymunedau dysgu ym Mhowys, Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, a Bro Morgannwg, gan ddarparu cefnogaeth addysg ddigidol gynhwysfawr ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd a'r cymhwyster TGAU Technoleg Ddigidol ynghyd ag uwchsgilio digidol ar gyfer unigolion a busnesau. Bydd y prosiect, a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, yn parhau tan fis Mawrth 2025 ac mae eisoes wedi cael effaith sylweddol mewn cymunedau ledled De Cymru.

Cyrraedd 3,000 o Ddysgwyr: Mae'r DTLSN wedi darparu addysg sgiliau digidol hanfodol i nifer sylweddol o ddysgwyr ar draws cymunedau Cymru.

Cefnogaeth i Ysgolion ac Athrawon: Mae wedi helpu ysgolion i weithredu'r cwricwlwm newydd a gwella hyder athrawon wrth gyflwyno gwersi Cyfrifiadureg.

Hyfforddiant Sgiliau Digidol am Ddim i Fusnesau: Mae DTLSN yn cynnig hyfforddiant am ddim i fusnesau yn y canlynol: **codio creadigol, seiberddiogelwch, rhyngweithio â data, crypto a blockchain a dysgu peiranyddol (AI)**, i wella galluedd y gweithlu a chystadleuydd.

Cynhwysiant Digidol ar gyfer cymunedau lleol: Gan harneisio creadigrwydd, mae'r DTLSN yn cydweithio â Fablab Prifysgol Metropolitan Caerdydd i ddod â thechnoleg i gymunedau gwledig.

Uchafbwyntiau a llwyddiannau

Mae gwaith y DTLSN yn cyd-fynd â strategaethau Llywodraeth Cymru i wella sgiliau'r gweithlu digidol a lleihau tloedi ac anghydraddoldeb. Drwy gynnig addysg a chymorth digidol, mae'r rhaglen wedi gwella rhagolygon swyddi, wedi creu gweithlu medrus, ac wedi hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol trwy ei ffocws ar fenywod mewn meysydd STEM.

Adborth cyfranogwyr:

- Gwell sgiliau technoleg ddigidol, gan helpu dysgwyr i archwilio cyfleoedd academiaidd a gyrfa.
- Cryfhau gallu athrawon ac ysgolion i weithredu'r cwricwlwm newydd.
- Mynediad estynedig i adnoddau STEM, gan arwain at fwy o hyder athrawon wrth ddysgu Cyfrifiadureg.
- Darparu hyfforddiant am ddim i fusnesau fel rhaglennu, seiberddiogelwch, a dysgu peiranyddol, gwella sgiliau'r gweithlu a chystadleurwydd.
- Cefnogi dysgwyr cymunedol gyda gweithdai ar sgiliau goroesi digidol, AI, a seiberddiogelwch, hyrwyddo dysgu gydol oes, gwella rhagolygon swyddi a chynyddu ffyniant yn y rhanbarth a gwytnwch o fewn cymdeithas.



Disgyblion ysgol yn ffynnu gyda gweithdai DTLSN

Mae'r cyfranogwyr wedi canmol gweithdai DTLSN am eu natur ddiddorol a llawn gwybodaeth. Mae athrawon yn dweud bod mwy o hyder wrth ddysgu Cyfrifiadureg, a mynegodd myfyrwyr frwdfrydedd am y gwersi, gan ofyn am fwy o sesiynau. Mae busnesau hefyd wedi elwa o uwchsgilio eu timau ynghyd â llwyddiannau recriwtio gwell mewn rolau technoleg ddigidol.

Adborth disgybl

Roedd yn anhygoel! Roeddwn i wrth fy modd â'r sesiwn hon ac fe wnes i ddysgu llawer!

Dysgom ni am algorithmau patrymau haniaethol - dadelfennu

Roeddwn i wrth fy modd â'r wers roedd yn hynod o hwyl, ac rwy'n gobeithio y gallwn wneud mwy

Roedd yn ffordd hwyliog ond heriol o ddysgu

Rwyf wrth fy modd ac eisiau mwy!



DTLSN yn grymuso disgyblion sydd â sgiliau digidol

Adborth Busnes

Fel cwmni, rydym wedi elwa o ymgymryd â'r cwrs hwn drwy i) recriwtio a chyflymu'r twf o fewn y cwmni, ii) uwchsgilio mewnol iii) gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth i'r gwasanaethau a ddarparwn."

Dr Chris Jones, Prif Swyddog Gwyddoniaeth ar gyfer Dadansoddeg Chwaraeon a Lles Ltd.

Ehangu'r Effaith

Mae'r DTLSN yn paratoi ar gyfer ceisiadau cyllid dilynol i ymestyn ei effaith y tu hwnt i 2025. Gall mentrau'r dyfodol geisio cyllid o grantiau'r llywodraeth a chynnwys partneriaethau â busnesau, sefydliadau a sefydliadau addysgol i barhau i gefnogi addysg ddigidol mewn cymunedau yng Nghymru.

I drefnu galwad gydag aelod o dîm Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Metropolitan Caerdydd, e-bostiwch business@cardiffmet.ac.uk

Darganfyddwch fwy am DTLSN

Wefan DTLSN

Cyrsiau DTLSN Seiberddiogelwch

Fideo astudiaeth achos DTLSN

Cysylltwch â'r tîm drwy e-bostio:

dtlsn.info@cardiffmet.ac.uk

<dt/sn>

digital technology
learning support network

technocamps



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd